YSGOL UWCHRADD TYWYN
Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn,
Gwynedd, LL36 9EU
☎ ***01654 710256***

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis

Annwyl Riant/Ofalwr

Pan mae'n rhaid imi ddweud bod rhai disgyblion yn yr ysgol yn peidio parchu eu hamgylchedd, disgyblion eraill a'u hathrawon, mae'r sefyllfa yn un drist iawn.

Ers dychwelyd i'r ysgol fis Medi gwelwyd trais yn erbyn adnoddau, cyfleusterau a mesurau diogelwch gan rai disgyblion, a'r rhai hynny yn ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11. Targedwyd toiledau'r bechgyn ac rydym wedi gweld gormod o'r papur sychu dwylo glas wedi ei roi lawr y toiled neu yn y sinc ac felly ni allwn ei ddarparu bellach. Mae sychwr dwylo yn y toiledau a bydd y disgyblion yn ei ddefnyddio.

Roedd achos pan roddwyd dŵr drwy top y botel hylif sebon. Roedd disgyblion wedyn yn taflu llond llaw o bapur gwlyb tuag at y waliau a'r nenfwd. Tollwyd hylif glanhau dwylo ar hyd y llawr ac wedyn fe ddefnyddiwyd y llawr fel llithren. Tynnwyd botel hylif sebon oddi ar wal. Torrwyd golau yn ogystal â sedd a sawl clo oddi ar y drysau, sydd erbyn hyn wedi ei trwsio yn nhoiledau'r bechgyn a'r merched. Yn fwyaf diweddar, cafodd y tapiau yn nhoiledau'r bechgyn eu troi yn groes a'u torri nes eu bod yn gollwng. Bu yn rhaid diffodd y cyflenwad dŵr nes iddynt gael eu trwsio gan y plymwr**.** Mae difrod bwriadol fel hyn yn gywilyddus.

Caiff y disgyblion eu hatgoffa bob dydd i ddod a mwgwd eu hunain i'r ysgol ac i'w gwisgo ar y coridorau ac yn y ffreutur nes iddynt eistedd a bod yn barod i fwyta. Er hyn, mae rhai disgyblion yn dewis anwybyddu'r rheol. Disgwyliad y rhieni yw, bod yr ysgol yn cadw eu plant yn ddiogel, disgwyliad synhwyrol. Ond, pan fo disgyblion yn rheolaidd ac yn fwriadol yn gwrthod cydymffurfio a bod yn amharchus o eraill, daw hyn yn ddisgwyliad afresymol.

Gwelir bod yr holl staff yn gwneud eu gorau glas mewn amgylchiadau anodd tu hwnt i sicrhau bod y ddarpariaeth cystal ag y gall fod, ond nid yw pob disgyblion yn gwerthfawrogi hyn, ac o ganlyniad yn ymddwyn yn hunanol ac amharchus, sydd yn achosi i eraill ddioddef o ganlyniad i'w gweithredoedd di-feddwl.

Mae gan bob blwyddyn ardal benodol eu hunain o fewn adeilad yr ysgol ac y tu allan i'r ysgol. Gwelwyd y disgyblion hynaf yn ceisio mynd i ardaloedd blynyddoedd eraill, neu ddim yn cadw at y drefn unffordd, sydd wedi ei farcio yn glir iawn ac wedi ei egluro yn drylwyr iddynt pan ddaethant nôl i'r ysgol. Mae hwn yn anghyfleustra diangen i eraill a gallent fod yn peri risg iddynt eu hunain ac i eraill. Yn wir, mae cyfrifoldeb gennym i warchod y disgyblion yn yr ysgol ond mae'n ymddangos nad oes gan rai unrhyw barch tuag at ganllawiau mesurau diogelwch yr ysgol. Rhaid atgoffa'r disgyblion eu bod angen gwisgo mwgwd mewn lleoedd cyhoeddus ers Medi 14eg.

Bu trafnidiaeth ysgol yn hunllef i ni gyd, staff a disgyblion. Mae'r diffyg cyd-weithio gan rai o'r disgyblion wedi ychwanegu at y cur pen. Dim ond 20 disgybl all deithio ar y trên ar y ffordd gartref o'r ysgol, gyda'r mwyafrif yn teithio ar y bws sydd wedi ei darparu gan TFW. Yr ydym yn ymwybodol nad yw hyn yn ddelfrydol, ond, mae'r sefyllfa tu hwnt i'n rheolaeth ni ac felly rydym yn eich cynghori i gysylltu yn uniongyrchol gyda TFW. Ni all mwy na 2 gerbyd trên deithio ar rheilffordd oherwydd maint y platfform, nid yw'r capasiti yn ddigonol i'r cyhoedd a'r disgyblion i gyd deithio nôl ar y trên ysgol, a dyna'r rheswm dros ddarparu'r bws.

YSGOL UWCHRADD TYWYN
Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn,
Gwynedd, LL36 9EU
☎ ***01654 710256***

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis

Mae polisi ffonau symudol yr ysgol ar waith. Bydd y disgyblion sydd yn dewis dod a'r ffôn i'r ysgol yn derbyn y polisi hwn. Rhaid iddynt eu rhoi i mewn i'r athro dosbarth bob bore, i'w gadw yn ddiogel a bydd y ffôn yn cael ei roi nôl i'r disgybl yn ystod y wers olaf.

Os bydd aelod o staff yn gweld neu yn clywed ffôn bydd yr aelod yn cymryd y ffôn oddi ar y disgybl ac yn ei gadw yn ddiogel. Bydd y rhieni yn cael gwybod a bydd y ffôn yn cael ei gadw am 24 awr yn y lle cyntaf. Os bydd hyn yn digwydd eto, bydd y ffôn yn cael ei gadw am 48 awr ac felly ymlaen. Os bydd ffôn yn cael ei gymryd oddi ar y disgybl ar ddydd Gwener yna gall y rhiant ddod i nôl y ffôn neu gall gael ei gadw yn yr ysgol tan ddydd Llun.

Tra bod rhai disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn rhoi'r ffon i'r athro dosbarth (ond nid pob un), ar gyfartaledd dim ond 2 ddisgybl blwyddyn 11 sydd yn rhoi'r ffôn i mewn ac mae'r rhif yn debyg yn blwyddyn 10. Mae gennym dystiolaeth bod disgyblion o'r blynyddoedd yma yn dod a'u ffonau i'r ysgol oherwydd mae fideos i'w gweld ar Tik Tok sydd wedi eu creu yn ystod oriau ysgol, fideos sydd ar gael i unrhyw un eu gweld. Hoffwn bwysleisio eu bod, wrth beidio rhoi eu ffonau i mewn, yn cytuno i'w ffonau gael eu cymryd oddi arnynt gan aelod o staff petai'r aelod staff yn gweld neu yn clywed y ffôn. Mae'r dewis hwn yn un mae'r disgyblion yn eu wneud drwy ddod a'u ffonau i'r ysgol. Nid yw ein polisi yn afresymol. Os y bydd y disgyblion angen cysylltu gyda'u rhieni neu y rhieni angen cael gafael ar y plentyn yn ystod y diwrnod ysgol, gallant wneud hyn drwy swyddfa'r ysgol.

Yr ydym yn bryderus ynghylch y defnydd o ffonau yn ystod 4 wythnos gyntaf y tymor hwn gan flynyddoedd 7 ac 8 yn arbennig. Mae rhai o'r fideos Tik Tok mae'r disgyblion yn eu creu yn anaddas ac mae rhai yn gweld cyfle yma i siarad yn dreisgar gyda disgyblion am gynnwys y fideos. Os gwelwch yn dda wneud chi wirio ffonau eich plant.

Mae hi yn angenrheidiol bod disgyblion a rhieni yn sylweddoli ac yn derbyn y bydd canlyniadau os ydyn nhw yn dewis torri yn fwriadol reolau diogelwch yr ysgol a rheolau'r ysgol. Mae'r adeg yma yn anodd ac mae gwneud pethau yn anoddach yn mynd i arwain at weithredu yn llym. Fel yr awgrymir yn y canllawiau ymddygiad a gafodd eu rhyddhau ym mis Mehefin, os y bydd yn angenrheidiol, bydd rhieni yn dod i'r ysgol i nôl eu plant.

Mae hi yn ofynnol i ni gyflawni rôl hyblyg iawn ar gyfer ein pobl ifanc a byddwn bob amser yn gwneud ein gorau drostynt, ond nid yw derbyn trais ac amharch yn rhan o'r rôl yna a ni fydd yn cael ei dderbyn tuag at staff na disgyblion. Yr wyf yn mawr obeithio y gallwn ddibynnu arnoch am eich cefnogaeth a'ch cyd-weithrediad tra ein bod yn parhau i gyfathrebu gyda chi a gyda eich plant.

Yn gywir

Helen Lewis

Pennaeth